Estyn

Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Sir Powys

**Neuadd y Sir**
**Llandrindod**
**Powys**
**LD1 5LG**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Sir Powys

Mae 16,391 o ddisgyblion ar draws 86 ysgol ym Mhowys. Mae 72 o ysgolion cynradd, tair ysgol bob oed, wyth ysgol uwchradd, a thair ysgol arbennig. Mae 21 o'r ysgolion hyn yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg.

Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 15.4% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yng Nghasnewydd wedi'i nodi isod:

- Mae 8.0% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed o leiafrifoedd ethnig
- Mae gan 9.5% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol)
- Mae gan 2.5% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy)
- Mae gan 1.1% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (â Datganiad)
- Mae gan 6.5% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Cynllun Datblygu Unigol)
- Mae 2.7% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A, B, neu C)
- Mae 8.9% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn rhugl yn y Gymraeg
- Mae 245 o blant yn derbyn gofal (wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf am resymau datgelu)

Cynhaliom arolygiad ar wahân o'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghyngor Sir Powys ychydig wythnosau cyn yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol (GALlL). Pan fo'n berthnasol, mae'r canfyddiadau a'r gwerthusiadau o'r arolygiad gwaith ieuenctid wedi llywio gwaith y tîm arolygu GALlL.

## Crynodeb

Bu nifer o newidiadau diweddar yn yr uwch arweinyddiaeth yng ngwasanaethau addysg llywodraeth leol Cyngor Sir Powys. Mae hyn yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Addysg a benodwyd yn ddiweddar, yn ogystal â sefydlu tîm arweinyddiaeth addysg newydd. Mae'r tîm newydd hwn wedi gweithio i feithrin perthnasoedd o ymddiriedolaeth ag ysgolion a rhanddeiliaid eraill ac wedi blaenoriaethu dealltwriaeth eang o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn y gyfarwyddiaeth addysg. Er gwaethaf hyn, dros gyfnod, mae arweinyddiaeth ar bob lefel wedi cael effaith gyfyngedig ar sicrhau gwelliannau pwysig mewn gwasanaethau addysg neu mewn gwella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae deilliannau arolygu mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed wedi bod yn wael dros gyfnod. Ers arolygiad diwethaf y Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn 2019, dim ond dwy ysgol uwchradd nad oedd angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol arnynt. Er bod arolygiadau ysgolion cynradd wedi bod yn fwy cadarnhaol, mae cyfran fwy o ysgolion cynradd wedi cael eu gosod mewn categori gweithgarwch dilynol er mis Chwefror 2021 na'r hyn a welwn yn genedlaethol, ar y cyfan.

Ceir ychydig o enghreifftiau lle mae cymorth i wella ysgolion yn effeithiol, ond ar y cyfan, nid yw prosesau gwella ysgolion a'u heffaith wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae hyn oherwydd bod swyddogion yn rhy aml yn canolbwyntio gormod ar waith papur gwella ysgolion ar draul gweithio gydag ysgolion i gefnogi'r blaenoriaethau gwella mwyaf dybryd. Ceir enghreifftiau hefyd o swyddogion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn darparu cymorth buddiol i ysgolion, disgyblion a'u teuluoedd. Er gwaethaf hyn, nid yw'r arweinyddiaeth strategol ar gyfer ADY yn ddigon effeithiol ac nid yw wedi sicrhau bod strategaethau cymorth wedi cael eu hadolygu neu'u gwerthuso i sicrhau bod pob ysgol yn cael cyfle i elwa ar gymorth o ansawdd uchel a chyson.

Mae gan dîm y blynyddoedd cynnar oruchwyliaeth a dealltwriaeth dda o'r lleoliadau nas cynhelir ac mae'n darparu cymorth buddiol wedi ei theilwro. Mae'r cymorth hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth mewn lleoliadau, ac fe gaiff ei werthfawrogi gan staff.

Yn gyffredinol, mae cynllun 10 mlynedd Powys i drawsnewid ysgolion yn darparu nodau ac amcanion clir. Ceir dolenni buddiol at Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc  gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi gwneud penderfyniadau anodd i gau ysgolion gyda'r nod o leihau lleoedd dros ben. Er bod yr

awdurdod lleol yn ystyried ystod eang o safbwyntiau wrth gynllunio ar gyfer trawsnewid ysgolion, yn aml, nid yw cynigion yn cynnwys digon o wybodaeth am yr effaith sydd wedi ei fwriadu ar ddeilliannau dysgwyr. O ganlyniad, ni chaiff yr agwedd hon ei gwerthuso'n ddigonol. Yn ychwanegol, er bod yr awdurdod lleol wedi ceisio ad-drefnu ei ddarpariaeth chweched dosbarth, nid yw trefniadau presennol wedi arwain at ddeilliannau gwell i ddysgwyr, nid ydynt yn gynaliadwy yn ariannol ac nid ydynt yn cefnogi mynediad cyfartal at ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer yr holl ddysgwyr, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg ac ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag ADY.

Mae'r awdurdod lleol wedi blaenoriaethu ei waith ar leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc. Mae wedi darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion, ac mae'r 'Tasglu Tlodi Plant' wedi hwyluso gwaith gyda darparwyr allanol i gynorthwyo plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r awdurdod lleol wedi gwerthuso'i waith i ystyried effaith y gwaith hwn ar wella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

Yn ddiweddar, mae aelodau ac uwch arweinwyr wedi sicrhau arweinyddiaeth gref ar gyfer diogelu corfforaethol. Darperir cymorth a her addas i ysgolion i wella'u prosesau diogelu, ac yn gyffredinol, mae swyddogion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr agwedd hon ar eu hysgolion. Fodd bynnag, o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, mae cyfran gryn dipyn yn uwch o ysgolion ym Mhowys ble mae materion pwysig o ran diogelwch safleoedd sy'n peri pryder o hyd. Er bod yr awdurdod lleol yn aml yn nodi'r risgiau hyn, mewn llawer o achosion, nid ydynt yn mynd i'r afael â nhw nes bydd Estyn yn nodi'r diffygion hefyd.

Mae'r awdurdod lleol yn adnabod sefyllfaoedd ariannol ei ysgolion yn dda, ac yn fwy diweddar, mae wedi gwella'r ffordd y mae'n cefnogi a herio ysgolion lle mae swyddogion yn nodi pryderon. Mae hyn wedi helpu rhoi ffocws o'r newydd ar leihau diffygion o fewn y flwyddyn mewn ysgolion. Er gwaethaf y gwaith hwn, dros gyfnod, nid yw'r awdurdod lleol wedi cael digon o effaith o ran gwella sefyllfaoedd cyllideb ysgolion.

Nid yw prosesau gwerthuso a gwella yng Nghyngor Sir Powys yn ddigon effeithiol ac nid ydynt wedi arwain at welliannau pwysig neu gynaliadwy. Er bod gan y cabinet ac uwch arweinwyr weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Powys, sef 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach', nid yw blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol yn cyfeirio'n benodol at addysg, gan gyfyngu ffocws y gwerthuso ar yr agwedd bwysig hon trwy systemau rheoli corfforaethol. Yn ogystal â hyn, nid yw cynllun gwella'r gwasanaeth addysg yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer addysg ar draws yr awdurdod.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr awdurdod lleol yn mynd i'r afael ar frys â materion diogelwch pwysig ar safleoedd ysgolion

A2 Cryfhau ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth, gan gynnwys arweinyddiaeth wleidyddol, ar bob lefel

A3 Cryfhau ansawdd y cymorth a'r her i ysgolion i wella deilliannau ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY

A4 Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu'n gyflym model ar gyfer addysg 16-19 sy'n hyfyw ac yn gynaliadwy yn ariannol, yn diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr, ac yn ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ADY

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn dilyn yr arolygiad hwn, mae PAEF o'r farn fod yr awdurdod lleol hwn yn achosi pryder sylweddol. Bydd yr awdurdod lleol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr awdurdod lleol trwy gyfres o ymweliadau monitro.

## Prif ganfyddiadau

### Gwasanaethau addysg a'u heffaith

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo pob ysgol, yn enwedig ysgolion uwchradd, i sicrhau gwelliannau?

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio i gryfhau perthnasoedd ac ymddiriedaeth gydag ysgolion. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu ag arweinwyr ysgolion i ystyried y rhwystrau sy'n eu hatal rhag sicrhau gwelliannau cyflym yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer eu disgyblion. Yn ychwanegol, mae'r pennaeth gwella ysgolion a dysgu a benodwyd yn ddiweddar yn dechrau creu darlun o'r cryfderau a'r diffygion bras yn y gwasanaeth gwella ysgolion, er ei bod yn rhy gynnar i fesur effaith y gwaith hwn.

Er gwaethaf rhai o'r datblygiadau diweddar iawn hyn, dros gyfnod, mae arweinyddiaeth o ran gwella ysgolion ar bob lefel wedi bod yn rhy amrywiol ac mae'r awdurdod lleol wedi cael effaith gyfyngedig ar ysgogi gwelliannau cynaliadwy mewn ysgolion.

Dros gyfnod, mae'r deilliannau arolygu ar gyfer ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed Powys wedi bod yn wan. Ers yr arolygiad craidd diwethaf o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn 2019, dim ond dwy ysgol uwchradd yn unig nad oedd angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol arnynt. Er mis Chwefror 2021, rydym wedi arolygu tair ysgol uwchradd ac wedi gosod pob un o'r rhain yn y categori adolygu gan Estyn. Cafodd un o'r ysgolion hyn ymweliad monitro ym mis Medi 2024, a barnwyd ei bod wedi gwneud cynnydd annigonol gan osod yr ysgol yn y categori gwelliant sylweddol. Mae'r ddwy ysgol arall yn parhau yn y categori adolygu gan Estyn ar hyn o bryd. Cafodd dwy o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd cyn 2021 eu rhoi yn y categori gwelliant sylweddol i ddechrau. Barnwyd bod y ddwy ysgol wedi gwneud cynnydd annigonol a rhoddwyd nhw yn y categori mesurau arbennig. Ers hynny, mae un o'r rhain wedi cael ei thynnu o'r categori mesurau arbennig, ond mae'r ysgol arall yn parhau yn y categori hwn ar ôl cael ei rhoi yn y categori gweithgarwch dilynol statudol ym mis Mawrth 2020, i ddechrau. Er mis Chwefror 2021, rydym wedi arolygu tair ysgol bob oed. Gosodwyd dwy o'r ysgolion hyn yn y categori adolygu gan Estyn a barnwyd bod angen gwelliant sylweddol ar y llall.

Er mis Chwefror 2021, rydym wedi arolygu 39 ysgol gynradd. Barnwyd nad oedd angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol ar 28 o'r rhain, a gofynnwyd i bedair ohonynt ddarparu astudiaeth achos arfer effeithiol. Gosodwyd saith ysgol gynradd yn y categori adolygu gan Estyn, ac mae tair o'r rhain wedi cael eu tynnu o'r lefel hon o weithgarwch dilynol, erbyn hyn. Barnwyd bod angen gwelliant sylweddol ar dair ysgol gynradd, a gosodwyd un ohonynt yn y categori mesurau arbennig. Mae cyfran yr ysgolion cynradd sy'n cael eu gosod yn y categori gweithgarwch dilynol yn fwy ym Mhowys nag ydyw yn genedlaethol, ar y cyfan.

Rydym wedi arolygu un o'r tair ysgol arbennig ym Mhowys er mis Chwefror 2021 a barnwyd nad oedd angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol arni. Arolygom ysgol arbennig arall yn 2020 a barnwyd bod angen iddi gael ei hadolygu gan Estyn. Tynnwyd yr ysgol hon o'r lefel hon o weithgarwch dilynol yn 2023, ar ôl cael chwe mis o estyniad i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Fe wnaethom arolygu'r uned cyfeirio disgyblion yn 2024, a barnwyd bod angen gwelliant sylweddol arni.

Ceir ychydig o enghreifftiau lle rhoddir cymorth a her effeithiol i ysgolion er mwyn sicrhau gwelliant. Yn yr achosion hyn, mae ymgynghorwyr gwella ysgolion yn gweithio'n effeithiol gydag arweinwyr ysgolion i drefnu a darparu cymorth teilwredig, sy'n gysylltiedig â deilliannau clir sy'n cael eu deall yn dda ar gyfer llwyddo. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae timau gwella ysgolion yn canolbwyntio gormod ar werthuso gwaith papur gwella ysgolion, yn hytrach na gweithio gydag arweinwyr ysgolion i ysgogi gwelliant a gwerthuso effaith y gwelliannau hynny ar safonau disgyblion.

Ceir rhaglen gytûn o ymweliadau ag ysgolion. Fodd bynnag, nid yw prosesau gwella ysgolion yn canolbwyntio ar werthuso'r materion mwyaf perthnasol yn ysgolion Powys. Nid yw arweinwyr a swyddogion ar bob lefel yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn ddigon da i gael golwg glir ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws ysgolion Powys. O ganlyniad, nid yw ansawdd ac effaith gwaith gwella ysgolion yn ddigon effeithiol ac nid yw arweinwyr yn herio'r wybodaeth a roddwyd iddynt am eu hysgolion yn ddigonol. Mae hyn oherwydd nad yw prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar ansawdd nac effaith y cymorth a ddarperir i ysgolion. Yn ychwanegol, ni chaiff y rhaglen dysgu proffesiynol ei chydlynu'n ddigon da na'i chysylltu'n ddigon agos â gwaith y timau gwella ysgolion.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi dechrau myfyrio ar ei ymagweddau at wella ysgolion ac wedi cyflwyno ymagweddau newydd, er enghraifft ailffocysu ei gyfarfodydd 'Tîm o Amgylch yr Ysgol', lle mae swyddogion ar draws y gwasanaeth addysg yn trafod cynnydd mewn ysgolion. Megis dechrau mae'r prosesau hyn ac nid ydynt yn ddigon effeithiol o ran herio a chynorthwyo swyddogion ac ysgolion. Mae hyn oherwydd nad eir i'r afael yn ddigon cadarn ag effaith unrhyw gamau a nodwyd.

Nid yw gwerthuso effaith y cymorth, gan gynnwys dysgu proffesiynol a ddarperir i ysgolion, wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid oes gan yr awdurdod lleol drosolwg digon clir o effaith dysgu proffesiynol a chymorth gwella ysgolion i gynllunio ar gyfer gwelliannau pwysig, a'u sicrhau.

Mae tîm y blynyddoedd cynnar yn adnabod a deall y lleoliadau nas cynhelir ym Mhowys yn dda. Maent yn gwneud defnydd buddiol o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth mewn lleoliadau ac yn darparu cymorth amserol a buddiol pan maent yn nodi unrhyw bryderon. Yn gyffredinol, mae deilliannau o arolygiadau mewn lleoliadau nas cynhelir wedi bod yn gadarnhaol dros gyfnod, a dim ond ychydig iawn o leoliadau y bu angen gweithgarwch dilynol arnynt.

### Pa mor dda y mae'r agenda trawsnewid ysgolion wedi sicrhau bod darpariaeth briodol ar gyfer pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rhai mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac yn y sector ôl-16?

Mae nodau a bwriadau eang y cynllun 10 mlynedd i drawsnewid ysgolion yn glir ac yn cael ei integreiddio â strategaethau eraill yr awdurdod lleol, gan gynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae'r pwyllgor craffu yn darparu her ac ystyriaethau priodol yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion, sydd wedi arwain at newidiadau priodol i'r strategaeth drawsnewid, lle bo'n berthnasol.

Mae ymgynghoriadau ysgolion yn rhoi ystyriaeth dda i amrywiaeth o farn rhanddeiliaid. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae’r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniadau anodd mewn cyd-destunau heriol i gau ysgolion bach gwledig. Er gwaethaf y camau hyn, mae cyfran y lleoedd dros ben wedi cynyddu ar draws ysgolion Powys, ac mae hyn yn rhannol oherwydd newid mewn demograffeg. Mae swyddogion wedi gwerthuso’n llawn y rhesymau am y cynnydd hwn yn nifer y lleoedd dros ben.

Mae swyddogion yn gwneud defnydd da o adolygiadau dalgylch i lywio a gyrru’r broses drawsnewid. Maent yn myfyrio’n dda ar eu hymagweddau at waith ad-drefnu, gan nodi gwelliannau posibl, ac yn eu defnyddio i lywio prosiectau yn y dyfodol yn dda. Yn gyffredinol, nid oes manylion digonol yn y strategaeth, y cynlluniau na’r cynigion o ran yr effaith arfaethedig ar ddeilliannau dysgwyr. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i’r awdurdod lleol werthuso llwyddiant ad-drefnu yn llawn, ac ystyried y gwahaniaeth a wna’r rhaglen drawsnewid i gynnydd dysgwyr.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi gweithio gydag arweinwyr ysgolion a rhanddeiliaid ehangach ar draws yr awdurdod i ddatblygu opsiynau ar gyfer dysgwyr ôl-16. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae’r awdurdod lleol wedi cyflwyno ‘model Chweched Powys Sixth’ i ddarparu dysgu chweched dosbarth ar 12 o safleoedd ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau hyn wedi arwain at ddeilliannau gwell i ddysgwyr, nid ydynt yn gynaliadwy yn ariannol ac nid ydynt yn cefnogi mynediad cyfartal at ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer pob un o’r dysgwyr. O ganlyniad, mae cynnydd o ran mynd i’r afael â thrawsnewid y sector ôl-16 wedi bod yn rhy araf.

Mae ymgorffori datblygu’r Gymraeg fel nod o fewn y cynllun trawsnewid wedi bod yn gam nodedig i sicrhau mynediad cynyddol at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ddiweddar, mae aelodau wedi cryfhau’r gefnogaeth wleidyddol ag uchelgais cynyddol i sicrhau bod blaenoriaethau CSCA yr awdurdod lleol wedi symud yn gyflymach. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cynyddu yn unol â thargedau eu CSCA. Mae swyddogion y CSCA yn rhan o’r grŵp trawsnewid ac yn adrodd i aelodau a rhanddeiliaid perthnasol yn rheolaidd. Mae’r awdurdod lleol, gan weithio gydag asiantaethau eraill, yn rhagweithiol o ran cefnogi’r cynnydd yn nifer y disgyblion sy’n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae fforwm Cymraeg yr awdurdod ac is-grwpiau wedi gwella ymgysylltu â grwpiau ffocws rhanddeiliaid.

Mae datblygu dulliau trochi yn cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae gan yr awdurdod lleol ganolfan yn ogystal â ‘darpariaeth dros dro’ i fodloni’r galw mewn ysgolion eraill. Mae’r cynllun trawsnewid i fynd i’r afael â darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi cael effaith gadarnhaol ar

alluogi dysgwyr i gael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd yr awdurdod lleol. Mae hyn yn sicrhau bod taith continwwm addysg ddi-dor ar gyfer y disgyblion hyn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ne'r awdurdod yn cael yr un tegwch o ran darpariaeth.

Wrth gynllunio ysgolion newydd, caiff y tîm trawsnewid ei gefnogi gan dimau ADY arbenigol sy'n rhoi cyngor gwerthfawr ynghylch trefnu priodoldeb gofodau dysgu wrth gynllunio adeiladau ysgol newydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun 10 mlynedd i drawsnewid ysgolion yn rhoi digon o ystyriaeth i'r newid ym mhroffil disgyblion ag ADY neu ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

### Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth strategol o ran ADY, gan gynnwys ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)?

Mae newidiadau aml mewn arweinyddiaeth ym Mhowys wedi gwanhau cyfeiriad strategol gwasanaethau ADY, gan oedi cynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol a lleihau effeithiolrwydd cyffredinol. Mae'r diffyg parhad wedi arwain at newid blaenoriaethau, gan gyfyngu ar roi cynlluniau trawsnewid ar waith yn llawn. Er y bu cynnydd mewn rhai meysydd, mae gwerthuso strategol anghyson a chynllunio hirdymor gwan yn rhwystro'r gallu i ddarparu gwasanaethau ADY effeithiol ac o ansawdd uchel ledled y sir.

Yn 2020, cyflwynodd yr awdurdod lleol strategaeth trawsnewid ADY, yn amlinellu chwe maes allweddol i'w diwygio. Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd mewn ychydig o feysydd allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys ailddynodi dosbarthiadau awtistiaeth arbenigol a sefydlu darpariaethau lloeren o ysgolion arbennig. Fodd bynnag, ni roddodd yr awdurdod ystyriaeth ddigonol i'r data oedd ar gael i'w helpu i bennu lleoliad dosbarthiadau arbenigol. O ganlyniad, mae annhegwch o ran darpariaeth ar draws yr awdurdod.

Mae cynllun strategol 2024 ar gyfer ADY a chynhwysiant yn adeiladu ar sylfeini cynllun 2020. Mae diffyg tystiolaeth o roi strategaethau blaenorol ar waith, neu'u heffaith, yn y strategaeth bresennol. Mae manylion annigonol am sut bydd y blaenoriaethau'n cael eu hariannu, ac nid yw nodau a deilliannau yn ddigon penodol. Yn ychwanegol, nid yw'r awdurdod yn ystyried yn llawn y materion yn ymwneud â chynaliadwyedd yn y tymor hir, yn enwedig wrth fynd i'r afael â heriau gweithlu yn gysylltiedig â recriwtio a chadw staff medrus ar gyfer gwasanaethau ADY. Er bod y cynllun strategol wedi cael ei ysgrifennu ar y cyd â phartneriaid, nid oedd ysgolion yn rhan o'r broses hon ac nid yw ymrwymiadau gwahanol bartneriaid mewn cyflawni blaenoriaethau yn glir yn y cynllun hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi canolbwyntio'n gryf ar wella darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi'i ysgogi gan ymrwymiad cynyddol gan

swyddogion ar bob lefel. Mae hyn wedi helpu codi ymwybyddiaeth am anghenion dysgwyr bregus. Fodd bynnag, mae diffyg ymagwedd strategol a systematig at werthuso, sy'n cyfyngu ar allu arweinwyr i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliannau tymor hir. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y cynllunio ar gyfer darpariaeth unedau cyfeirio disgyblion (UCD), lle nad yw ystyriaethau ynglŷn â'r twf yn niferoedd y disgyblion a'r goblygiadau ariannol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant, dysgu proffesiynol a chymorth ymgynghorol i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) ysgolion, y maent yn ei werthfawrogi, ar y cyfan. Mae'r rôl hyrwyddo Cydlynwyr ADY wedi helpu Cydlynwyr ADY i rannu arferion gorau, sicrhau ansawdd strategaethau ADY yn yr ysgol a chryfhau cydweithio ar draws ysgolion. Mae hyrwyddwyr hefyd yn gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau ADY yr awdurdod lleol.

Mae gan swyddogion gwaith achos ADY a swyddogion cyswllt â theuluoedd rôl hanfodol mewn cefnogi disgyblion a'u teuluoedd. Trwy gynnal perthnasoedd tymor hir, maent yn meithrin ymddiriedaeth ac yn sicrhau parhad mewn cymorth wrth i ddisgyblion bontio trwy'r system addysg. Mae'r system cyfeirio ac olrhain electronig yn offeryn gwerthfawr sy'n gwella'r broses gwneud penderfyniadau, gan alluogi'r awdurdod lleol i olrhain nifer y cynlluniau datblygu unigol (CDUau), monitro pryd y disgwylir i gynlluniau gael eu hadolygu, a sicrhau diweddariadau amserol. Mae ysgolion, rhieni a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol yn elwa ar gael gwybodaeth berthnasol am ddisgyblion a phenderfyniadau panel.

Mae athrawon arbenigol yn cynnig sesiynau galw i mewn ar gyfer Cydlynwyr ADY a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar. Maent yn rhoi cyngor ar ddulliau ysgol gyfan ac achosion disgyblion unigol. Fodd bynnag, mae'r capasiti o fewn timau ADY i gynorthwyo disgyblion ag awtistiaeth gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu yn annigonol i fodloni'r galw. Mae'r tîm sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn olrhain cynnydd yn effeithiol ac yn darparu ymyriadau targedig, sydd o fudd i ddisgyblion, ysgolion a gofalwyr.

Mae darpariaeth a mynediad at gymorth arbenigol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg ag ADY yn gyfyngedig. Mae'r annhegwch hwn yn cyfyngu ar gyfleoedd addysg ar gyfer disgyblion sy'n siarad Cymraeg, gan greu rhwystrau ychwanegol rhag cynhwysiant.

Nid yw gwerthuso gwasanaethau ADY yn rheolaidd ac yn systematig wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd. Mae dulliau gwerthuso'r awdurdod lleol yn canolbwyntio gormod ar allbynnau yn hytrach na mesur yr effaith. Nid yw blaenoriaethau gwasanaeth yn cyd-fynd

yn gyson â'r strategaeth ADY a Chynhwysiant, sy'n ei gwneud yn anodd olrhain gwelliannau.

## Pa mor effeithiol yw'r cymorth ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel yn y sir wledig hon?

Mae gan y cyngor uchelgais clir ar gyfer 'Powys Decach', sy'n cael ei ategu gan synnwyr cryf o degwch. Mae'r Tasglu Tlodi Plant yn galluogi swyddogion i gydweithio'n fuddiol â meysydd gwasanaeth eraill a sefydliadau allanol i liniaru effaith tlodi ar gyfer teuluoedd ym Mhowys. Mae'r tasglu'n hwyluso ystod o brosiectau buddiol. Er enghraifft, mae prosiect arlwyo dysgu teuluol mewn ysgol gynradd yn galluogi rhieni i weithio tuag at gymwysterau hylendid bwyd ac yn eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd gwaith a dysgu pellach. Mae ysgolion peilot yn cymryd rhan mewn menter ymchwil fuddiol i blant, pan fydd 'Pencampwyr Ieuenctid' yn casglu barn cyfoedion, rhieni ac athrawon i lywio gwaith ysgolion i gynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

Mae'r cynllun peilot Ysgolion Bro sy'n cael cyllid grant hefyd wedi'i gynnwys yng nghynllun gweithredu'r tasglu. Mae'r tîm o swyddogion cyswllt â theuluoedd sydd wedi'u cysylltu â'r pum clwstwr peilot yn darparu ystod eang o gymorth rheng flaen. Mae gan y tîm hwn enghreifftiau buddiol o effaith eu gwaith ar gyfer plant a theuluoedd unigol. Mae'r Tîm Ysgolion Bro a Thîm y Blynyddoedd Cynnar yn gwerthuso'u gwaith yn briodol, ond mae effaith y gweithgarwch a gyflenwir gan dimau eraill yn llai clir. Er bod gan y tasglu feini prawf llwyddiant eang, nid oes ffocws digon craff ar wella cyrhaeddiad a phresenoldeb yn y cynlluniau gweithredol sy'n ei gefnogi.

Mae arweinwyr ysgolion yn elwa ar ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth i gynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi. Mae'r hyfforddiant a'r cynadleddau mewn ysgolion wedi dylanwadu ar sut mae arweinwyr yn mynd i'r afael â heriau sy'n benodol i'w hysgolion, ond ceir tystiolaeth gyfyngedig o ba mor dda y mae hyn wedi cael ei ymgorffori yng ngwaith gwella'r ysgolion eu hunain. At ei gilydd, nid yw'r awdurdod lleol wedi dangos effaith y gwaith hwn i wella cyrhaeddiad na phresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae ffocws y gwasanaeth ar leihau effaith tlodi ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel yn amlwg ar draws ystod o'i gynlluniau datblygu. Fodd bynnag, mae agweddau pwysig, fel gwella presenoldeb, yn aml yn cael eu gwasgaru ar draws cynlluniau heb gysylltiadau cydlynus â'i gilydd. Nid yw camau dilynol wedi sicrhau gwelliannau cynaledig mewn presenoldeb, yn enwedig ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Yn ychwanegol, mae meini prawf llwyddiant ar draws cynlluniau yn rhy annelwig a gwneir defnydd cyfyngedig o'r data sydd ar gael i swyddogion, gan gynnwys cyrchfannau dysgwyr yn y sector ôl-16, i asesu effaith gwaith yr awdurdod yn y maes hwn. Mae hyn yn arbennig o wir am gyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion, gan gynnwys absenoldebau parhaus.

Mae gan Dîm y Blynyddoedd Cynnar oruchwyliaeth gref dros y Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GDDBC) a gall ddangos effaith y cyllid hwn ar eu lleoliadau yn glir. Fodd bynnag, mae diffyg trylwyredd wrth werthuso'r defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD), ar y cyfan, ac mae tystiolaeth a gwerthusiad cyfyngedig o effaith y GDD ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion ar draws yr awdurdod lleol.

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi a herio'i ysgolion i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u hadnoddau?

Mae'r awdurdod lleol yn gwybod yn dda am sefyllfa ariannol ei ysgolion. Mae swyddogion cyllid yn darparu gwybodaeth amserol a chlir i arweinwyr addysg am sefyllfa ariannol pob ysgol, er enghraifft trwy gyfarfodydd 'Tîm o Amgylch yr Ysgol' ac adroddiadau Penaethiaid Gwasanaethau. Mae swyddogion cyllid yn monitro yn ofalus sefyllfa ysgolion sy'n achosi pryder ariannol yn ystod blwyddyn.

Mae sawl ysgol o dan hysbysiad rhybudd neu hysbysiad pryder statudol ar hyn o bryd oherwydd eu sefyllfa ariannol, sy'n dangos parodrwydd yr uwch arweinwyr presennol i ddefnyddio'u pwerau. Mae ychydig o ysgolion, yn enwedig yn y sector uwchradd, yn cario diffygion cronnol mawr iawn. Dros gyfnod, mae defnydd yr awdurdod lleol o bwerau statudol wedi bod yn anghyson ac wedi cael effaith gyfyngedig.

Yn 2022, penderfynodd yr awdurdod lleol gyflwyno rheolwyr busnes clwstwr i gynorthwyo ysgolion cynradd yn benodol, ond nid oedd yn gallu recriwtio i unrhyw un o'r rolau. Fe wnaeth hyn gyfyngu cynllun yr awdurdod i wella ansawdd rheolaeth ariannol cyllidebau ysgolion. Hefyd, o ganlyniad i heriau staffio mewn rhai ysgolion unigol, mae swyddogion cyllid yr awdurdod lleol wedi cyflenwi ar gyfer rolau rheolwyr busnes ysgolion, gan effeithio ar allu'r tîm i gefnogi a herio ysgolion.

Mae swyddogion cyllid yn darparu cymorth, cyngor a hyfforddiant buddiol i ysgolion i'w helpu i osod eu cyllidebau a rheoli eu cyllid, er enghraifft trwy ddarparu cymorthfeydd cyllid, ymgynghoriadau ffôn ac offeryn meincnodi i gynorthwyo cymharu costau ag ysgolion ar draws yr awdurdod lleol. Roedd gan y tîm ffocws cryf yn 2024-2025 ar leihau diffygion rhagamcanol yn ystod y flwyddyn. Gwerthfawrogir cymorth y tîm gan y rhan fwyaf o ysgolion. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei gymorth ar gyfer ysgolion i reoli eu cyllidebau trwy gaffael meddalwedd newydd sydd wedi cynyddu cywirdeb ac amseroldeb sefyllfaoedd yn ystod y flwyddyn ac yn cefnogi rhagolygon buddiol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi cynnal adolygiadau cyllid manwl o ychydig o ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, roedd yr ymagweddau at yr adolygiad hwn yn anghyson a chafodd y gwaith effaith gyfyngedig o ran herio a chefnogi ysgolion i reoli eu

cyllidebau. Yn 2024, comisiynodd yr awdurdod lleol adroddiad defnyddiol a manwl ar y cwricwlwm, modelau amserlennu a staffio ym mhob ysgol uwchradd ac ysgol bob oed i nodi a mynd i'r afael ag effeithlonrwydd tra'n gwneud y mwyaf o brofiadau dysgu. Mae swyddogion wedi dechrau gweithio gydag ysgolion unigol i ystyried a mynd i'r afael â'r argymhellion ar eu cyfer yn yr adroddiad.

Nid yw'r cysondeb o ran her i ysgolion â phryderon ariannol, a mynd i'r afael â hyn, mor gryf â'r cymorth a ddarperir i'r ysgolion hyn. Er enghraifft, nid yw ymgynghorwyr gwella ysgolion bob amser yn codi pryderon ariannol ac yn mynd i'r afael â nhw yn ystod ymweliadau ag ysgolion ac mae offer meincnodi yn darparu cymariaethau o fewn Powys yn unig, yn hytrach nag ystyried y cyd-destun yn genedlaethol neu o fewn awdurdodau gwledig. Er bod gwargedau uchel mewn ychydig dros hanner yr ysgolion cynradd yn 2024-2025, mae'r awdurdod lleol wedi dewis peidio â chyfarwyddo'r defnydd o gyllid yn unrhyw un o'r ysgolion hyn.

Er bod arweinyddiaeth newydd mewn gwasanaethau addysg yn 2024 wedi dod â ffocws o'r newydd ar leihau diffygion mewn ysgolion yn ystod y flwyddyn, nid yw'r awdurdod lleol wedi cael digon o effaith dros gyfnod mewn cefnogi gwelliant cynaliadwy mewn sefyllfaoedd cyllideb ysgolion. Yn ychwanegol, caiff gallu'r awdurdod lleol i gefnogi a herio ysgolion unigol i reoli eu cyllidebau ei effeithio'n andwyol gan ystod o benderfyniadau strategol a materion ariannol sy'n effeithio ar wasanaethau addysg yn gyffredinol.

## Arwain a gwella

Yn dilyn cyfnod o newid, mae'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr addysg corfforaethol yn sefydlu sylfaen gyda'r nod o ddatblygu arfer effeithiol a gwelliant cynaliadwy yn ei wasanaethau addysg. Mae uwch arweinwyr a benodwyd yn ddiweddar yn y gyfarwyddiaeth addysg yn dechrau gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol gyda synnwyr o egni a phenderfyniad. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw arweinyddiaeth wedi cael effaith ddigon cryf ar feysydd pwysig, gan gynnwys ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion ym Mhowys.

Mae cyfrifoldebau wedi cael eu dyrannu i gynyddu capasiti arwain, er enghraifft trwy wahanu cyfrifoldebau arwain ar gyfer gwasanaethau plant oddi wrth addysg. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu meithrin perthnasoedd gwaith cryfach rhwng yr awdurdod lleol a'i ysgolion ac yn adolygu rolau a chyfrifoldebau i gynnig cymorth a her gryfach.

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Powys, sef 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach'. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion yn y cynllun corfforaethol yn cyfeirio'n eglur at addysg. Nid yw meysydd pwysig i'w gwella mewn addysg yn ddigon clir mewn

cynlluniau gwelliant. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd egluro'r cyfeiriad strategol ar gyfer addysg, gyrru gwelliant, neu i ddwyn arweinwyr ar bob lefel i gyfrif. Mae swyddogaethau rheoli, fel cyfarfodydd perfformiad chwarterol corfforaethol, yn cyd-fynd â'r amcanion corfforaethol, ac o ganlyniad, mae ffocws annigonol ar y meysydd pwysicaf i'w gwella mewn addysg.

Mae personél newydd ac ymagweddau newydd at arweinyddiaeth yn cefnogi perthnasoedd gwaith agosach rhwng aelodau a swyddogion. Mae arweinydd y cyngor a'r deiliad portffolio ar gyfer addysg yn meddu ar ddealltwriaeth eang o faterion yn gysylltiedig ag ysgolion ac yn cynnig cymorth a her addas i'r gyfarwyddiaeth. Mae'r pwyllgor craffu ar ddysgu a medrau yn dechrau gwella'i allu i adolygu a herio. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn cynllunio'i raglen waith i ganolbwyntio ar y materion allweddol mewn addysg. Yn ychwanegol, dros gyfnod, nid yw bob amser wedi cael gwybodaeth briodol i gael dealltwriaeth ddigon manwl o bob agwedd, er enghraifft perfformiad dysgwyr, i wneud argymhellion gwybodus ar gyfer gwella. Nid yw'r dysgu proffesiynol ar gyfer aelodau yn gysylltiedig ag addysg wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r cyfarwyddwr addysg yn benderfynol o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae wedi adolygu gwaith y gyfarwyddiaeth, wedi cynnal arfarniad beirniadol o hunanwerthuso, ac wrthi'n meithrin gweithio agosach ar draws timau. Mae hyn yn cyfrannu at ddiwylliant cynyddol o gydweithio. Yn y cyfnod pontio hwn, mae cyfrifoldebau arwain yn y gyfarwyddiaeth, er eu bod yn cael eu hadolygu, yn parhau i fod yn anghytbwys. Er bod cydweithio cynyddol rhwng timau, er enghraifft trwy strwythurau cyfarfodydd wedi'u hailfodelu, mewn ychydig o achosion, mae timau'n gweithio ar wahân o hyd, gan gyfyngu ar gyfleoedd i rannu arferion effeithiol.

Mae prosesau clir a chylch blynyddol ar gyfer arfarnu, adolygu perfformiad a gwerthuso. Fodd bynnag, mae amcanion ar gyfer y gyfarwyddiaeth yn rhy eang, ac nid yw cynlluniau gwella yn fanwl gywir, nid oes camau clir na meini prawf llwyddiant penodol. Mae diffyg cydlyniad ar draws prosesau, gan gynnwys cynllunio gan dimau. Yn gyffredinol, mae gormod o bwyslais ar fesur llwyddiant trwy ddeilliannau arolygiadau, yn hytrach na thrwy werthuso ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol.

Caiff prosesau arfarnu eu cwblhau yn ddiwyd ac yn fanwl gan arweinwyr a'r rheiny maent yn rheolwyr llinell arnynt. Fodd bynnag, oherwydd nad ydynt yn gysylltiedig ag amcanion sicr ac a rennir sy'n benodol i'r gyfarwyddiaeth, nid yw'r prosesau hyn yn cefnogi gwelliant yn ddigon da. Pan mae arweinwyr wedi nodi tanberfformio, maent wedi cynnal adolygiadau perfformiad a rhoi cynlluniau cymorth ar waith. Fodd bynnag, mewn rhai

achosion, nid yw'r prosesau hyn wedi bod yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â gwendidau a dod o hyd i atebion mewn modd amserol.

Mae llawer o gyfleoedd i staff ymgymryd â dysgu proffesiynol. Mae arweinwyr sy'n newydd i'w swydd yn gwerthfawrogi hyfforddi a mentora un i un. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw dysgu proffesiynol bob amser yn cael ei deilwra'n ddigon da i anghenion sy'n benodol i rôl neu wasanaeth. Nid yw'n cael ei gynllunio na'i werthuso'n ddigon strategol i gefnogi gwelliant yng ngwaith y gyfarwyddiaeth yn gyson.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymateb yn gadarnhaol i wella diogelu corfforaethol, ar ôl diffygion pwysig a nodwyd yn adroddiad diweddaraf Archwilio Cymru. O ganlyniad, erbyn hyn, mae arweinyddiaeth gorfforaethol gadarn o ran diogelu. Mae pob maes gwasanaeth yn cwblhau hunanwerthusiad blynyddol o ddiogelu ac yn creu camau i wella yn seiliedig ar eu deilliannau. Mae 'Hyrwyddwyr Diogelu' yn hyrwyddo diogelu ym mhob maes gwasanaeth ac yn darparu cymorth ac arweiniad ar gyfer staff.

Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cynnwys cynrychiolaeth o bob maes gwasanaeth. Yn gyffredinol, mae'n monitro effeithiolrwydd y trefniadau diogelu ar draws yr awdurdod lleol yn briodol. Mae'r bwrdd yn rhoi gwybodaeth o'i gyfarfodydd i bwyllgorau craffu yn rheolaidd, er bod diffyg manylion mewn adroddiadau, yn aml. Mae aelodau'n dwyn y bwrdd i gyfrif am ansawdd eu gwaith trwy her effeithiol.

Mae'r Tîm Diogelu Addysg yn darparu lefel uchel o gymorth ac arweiniad buddiol ac amserol i ysgolion a lleoliadau. Mae swyddogion yn ymateb yn gyflym i bryderon sy'n cael eu codi gan ddarparwyr, gan gynnwys wrth ddelio â digwyddiadau difrifol. Mae cylchlythyrau, sesiynau briffio a chyfarfodydd rheolaidd a llawn gwybodaeth yn galluogi swyddogion i rannu diweddariadau pwysig gyda darparwyr. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer recriwtio mwy diogel. Mae ystod eang o hyfforddiant defnyddiol ar gael i staff a llywodraethwyr ysgolion.

Mae swyddogion yn gofyn i bob ysgol ac UCD gwblhau archwiliadau diogelu ddwywaith y flwyddyn. Mae'r rhain yn rhoi trosolwg manwl i ysgolion, yr UCD a'r awdurdod lleol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ym mhob ysgol. Trwy graffu ar bob archwiliad a rhaglen dreigl o ymweliadau ag ysgolion, mae swyddogion yn cynnig cymorth pwrpasol i ddarparwyr i wneud gwelliannau i'w trefniadau diogelu. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cafwyd buddsoddiad cyfalaf gan yr awdurdod lleol i fynd i'r afael ag ystod o faterion rheoli safleoedd mewn ysgolion targedig. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwaith hwn, o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, mae materion pwysig o ran diogelwch ar safleoedd sy'n peri pryder o hyd mewn cyfran gryn dipyn yn uwch o ysgolion ym Mhowys. Er bod yr

awdurdod lleol yn aml yn nodi'r risgiau hyn, yn rhy aml, nid ydynt yn mynd i'r afael â nhw nes bydd Estyn yn nodi'r diffygion hefyd.

Er bod yr awdurdod lleol yn disgwyl i bob ysgol a'r UCD gyflwyno gwybodaeth am achosion o fwlio, mae diffygion pwysig yn y gwaith hwn. Ychydig iawn o ysgolion sy'n adrodd am unrhyw achosion o fwlio bob blwyddyn. Nid yw swyddogion yn cynnal unrhyw ddadansoddiad ystyrlon nac yn gwerthuso patrymau bwlio dros gyfnod. Yn ychwanegol, nid ydynt yn herio ysgolion pan na fyddant yn cyflwyno data am fwlio.

Yn ddiweddar, mae Cabinet yr awdurdod wedi cynnig ariannu ei fformiwla gyllido ar gyfer ysgolion yn llawn ar gyfer 2025-26. Fodd bynnag, yn y ddwy flwyddyn flaenorol, yn rhan o'i strategaeth ariannol, gofynnodd yr awdurdod i ysgolion ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn. Mae hyn, wedi'i gyfuno â chostau ynni cynyddol a phwysau eraill o ran costau, wedi achosi i falansau ysgol cyffredinol leihau o dros £8.9 miliwn ar ddiwedd 2021-2022 i £0.9 miliwn ar ddiwedd 2023-2024, sef y lefel drydedd isaf ledled Cymru. Mae'r awdurdod yn cadw cyfran uwch o gyllid addysg yn ganolog na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill heb ystyried yn llawn p'un a yw hyn yn darparu gwerth am arian. Mae cyflymdra newid araf yr awdurdod dros gyfnod, mewn meysydd fel trawsnewid ADY a'r sector ôl-16, yn cael effaith negyddol ar ei ddefnydd cyffredinol o adnoddau ar gyfer addysg.

Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn grŵp rhagweithiol ac ymroddgar o arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr a rheolwyr busnes sy'n ceisio ymgysylltu'n adeiladol am benderfyniadau ariannol sy'n effeithio ar ysgolion. Yn gyffredinol, mae'r fforwm yn darparu lefel dda o her. Fodd bynnag, caiff ei ddylanwad ei gyfyngu o bryd i'w gilydd pan na fydd aelodau'r fforwm yn derbyn gwybodaeth mewn modd amserol. Y tro diwethaf i'r awdurdod lleol adolygu ei fformiwla gyllido oedd ym mis Ionawr 2024, ar ôl i'r fforwm drafod ac ymgynghori. Mae gan yr awdurdod ddull strwythuredig i adolygu elfennau o'r fformiwla yn barhaus trwy ei Grŵp Adolygu Fformiwla, sy'n adrodd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi gorwario yn ystod y flwyddyn ar ei gyllideb cynnal a chadw ysgolion. Yn dilyn arolwg o gyflwr adeiladau ar draws ei holl ysgolion yn hydref 2024, mae'r awdurdod yn meddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr erbyn hyn o raddfa'r ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw ar draws ei ystâd ysgolion. Mae lefel yr ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw yn creu risg nodedig i'r awdurdod, y mae'n ei chydnabod.

Mae'r awdurdod yn darparu ystod o gytundebau lefel gwasanaeth defnyddiol sy'n cael eu defnyddio gan y rhan fwyaf o ysgolion, a chawsant eu hadolygu yn ddiweddar i ddiwallu anghenion ysgolion orau.

Nid yw trefniadau'r awdurdod wrth gomisiynu gwasanaethau mewn addysg, gan gynnwys Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru, bob amser yn nodi deilliannau clir a mesuradwy. Nid yw'r adroddiadau a ddarparwyd i'r awdurdod ar y gwasanaethau hynny yn rhoi dadansoddiad o ansawdd y deilliannau a gyflawnwyd yn gyson, sy'n cyfyngu ar allu'r awdurdod i asesu economi ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.

Mae gan yr awdurdod drefniadau clir ar lefel swyddog i fonitro sefyllfa ariannol yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth addysg, ac mae'r Cabinet a'r Panel Cyllid ill dau yn derbyn adroddiadau defnyddiol ar fonitro cyllidebau trwy gydol y flwyddyn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/03/2025